# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Arberth**

**Bloomfield Community Centre**
**Redstone Road**
**Narberth**
**SA67 7ES**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y*

*Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cylch Meithrin Arberth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Denise Mathias |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Good** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Excellent** |
| **Yr Amgylchedd** | **Good** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Excellent** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae plant yn hapus iawn ac wedi ymgartrefu'n llwyr yn y lleoliad. Maent yn cyfathrebu'n hyderus gan bod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Mae plant yn cael cyfleoedd eang a chyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau sydd yn effeithio arnynt. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth a'u sgiliau yn llwyddiannus.

Mae staff yn deall polisïau'r gwasanaeth yn llawn ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol y plant yn rhagorol. Mae holl staff y gwasanaeth wedi cwblhau hyfforddiant rheolaidd ac yn cael

cyfleoedd eang i fynychu cyrsiau cyfredol er mwyn ennyn profiadau dysgu a datblygiad unigol y plant.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn. Maent yn cwblhau asesiadau risg effeithiol ac yn adolygu rhain ynghyd a gofynion rheoliadol eraill yn flynyddol. Mae'r amgylchedd yn cynnig ardaloedd diogel lle mae plant yn gallu datblygu sgiliau a chael profiadau ysgogol.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn darparu amgylchedd dysgu rhagorol. Maent yn sicrhau bod gan blant mynediad i ardaloedd diogel ac ysgogol, adnoddau o safon uchel a staff sydd wedi'u hyfforddi yn barhaol. Mae ganddynt partneriaethau cadarn gyda'r ganolfan lle lleolir y gwasanaeth, ynghyd ag ysgolion lleol, lle mae gwasanaeth cludiant dibynadwy yn gweithio'n effeithlon. Mae rhieni a staff yn canmoladwy iawn o'r gwasanaeth a'r arweinyddiaeth.

## Llesiant — Good

Mae plant yn cyfathrebu'n hyderus gan bod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Maent yn cael cyfleoedd eang a chyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau sydd yn effeithio arnynt. Gwelsom enghreifftiau cryf o blant yn dewis eu chwarae, dewis eu gweithgareddau a dewis chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Yn ystod amser byrbryd, mae plant yn cael cyfleoedd i ddewis ystod o fwydydd iachus. Maent yn amlwg yn mwynhau'r amser i eistedd gyda'i gilydd, heb unrhyw bwysau gan eraill i gwblhau yn gyflym.

Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn. Maent yn ymdopi yn dda iawn wrth bod ar wahân am fod gyfnodau pontio wedi eu hystyried yn ofalus ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Gwelsom blant yn setlo ac er i ychydig o blant cael cyfnodau o fod yn ansicr, cafwyd cefnogaeth cynnes. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd roedd y plant a oedd yn setlo wedi dangos diddordeb ym mathodynnau adnabod y staff gan edrych arno ni hefyd i astudio ein bathodynnau a lluniau ni. Mae plant yn agosáu at staff gofal i gael cwtsh pan maent yn dewis, neu yn hapus i fod yng nghwmni plant eraill.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'u gilydd a gyda'r staff gofal yn gyson iawn, gyda rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu'n hapus ac yn frwdfrydig. Mae gan blant ymdeimlad cryf o berthyn, gan feithrin cydberthnasau agos, ac maent yn gyfarwydd iawn â threfniadau y dydd. Er enghraifft, gwelsom blant yn sgwrsio a rhyngweithio'n hapus drwy gydol cyfnod yr ymweliad, wrth symud o un ardal chwarae i'r nesaf.

Mae plant yn egnïol iawn wrth chwarae gyda eraill ac yn sensitif i anghenion eraill. Er enghraifft, gwelsom blant yn cefnogi plentyn bach a oedd yn setlo trwy gynnig sedd a'i helpu wrth y bwrdd rhannau rhydd. Mae plant yn cael rhyddid sylweddol i archwilio'r amgylchedd dan do a thu allan yn ddiogel. Maent yn llwyr ymroi ac yn dangos parch at eiddo a phob un yn gyson.

Mae plant yn dangos hunan gymhelliad da iawn wrth iddynt ddechrau chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu gweithgareddau sydd yn cael eu harwain gan y plant. Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant yn yr ardal gartref, yn paratoi paned o de a chynnig cacennau a pitsa. Mae plant yn cael cyfleoedd arbennig i ddatblygu'n greadigol ac arbrofi adnoddau, a gwelsom blant yn mwyhau cyd-weithio ac arsylwi ar eu gilydd wrth greu calonnau ar gyfer diwrnod San Ffolant. Mae plant yn cael cyfleoedd da iawn ar gyfer eu hoedran a datblygiad, gyda'r lleoliad wedi ei gynllunio yn ofalus a gyda phwrpas. Mae yna ardaloedd penodol yn cynnig ystod o ddarpariaeth ac adnoddau heb fod gormod o bethau. Mae'r awyr agored yn cynnig pob math o dirlun a chyfleoedd da iawn i blant chwarae ar lwybrau caled ac ar wair, gan brofi cyfleoedd gwych i ddatblygu eu sgiliau corfforol a datrys problemau. Mae plant yn annibynnol iawn ac yn gallu gwneud pethau drostynt eu hunain gyda hyder, er enghraifft, maent yn mwynhau golchi a sychu dwylo ar ben eu hunain.

| **Gofal a Datblygiad** | **Excellent** |
|---|---|

Mae gan holl staff y lleoliad ddealltwriaeth dda iawn o bolisïau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol y plant yn rhagorol. Mae staff yn rheoli risgiau yn barhaol ac yn effeithiol, ac yn ymwybodol iawn o ddiogelwch y plant a'u hunain. Roddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae holl staff y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn fanwl a chywir. Maent yn hyderus iawn eu bod yn rhan o dîm sydd yn cyd-weithio'n ofalus i sicrhau bod diogelwch a iechyd y plant yn flaenoriaeth. Mae holl staff y lleoliad yn deall ac yn gweithredu arferion glanhau ac hylendid cadarn. Er enghraifft, wrth sychu byrddau yn dilyn gweithgareddau a chyn amser byrbryd. Wrth gyflwyno byrbryd iachus, gwelsom staff yn gwisgo menig ac yn atgoffa'r plant i ystyried pwysigrwydd dwylo glân cyn bwyta. Maent yn cadw ffeil gynhwysfawr o wybodaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac mae'r person â chyfrifoldeb am ADY a'r holl staff yn ymwybodol iawn o ofynion plant yn unol â deddfwriaeth ADY. Mae gan y lleoliad drefniant clir ac effeithiol lle mae staff yn rhannu cyfrifoldebau fel paratoi byrbrydau, gosod gweithgareddau ac asesu risgiau dyddiol yn ogystal a gweld i neud a chefnogi eraill pan fo angen.

Mae holl staff y lleoliad yn rhyngweithio yn gynnes ac yn ofalgar gyda'r plant, ac mae tystiolaeth clir bod y plant yn gyfforddus iawn yng nghwmni eu gofalwyr. Mae staff yn ystyried teimladau plant yn barhaol ac yn cydnabod a gwerthfawrogi eu hymatebion yn fawr. Er enghraifft, fel rhan o weithgaredd cylch, roedd staff yn dangos diddordeb a chynhesrwydd wrth i'r plant dweud pam oeddent yn teimlo'n hapus, yn flinedig neu yn drist. Mae staff yn modelau rôl da iawn ac yn cyfathrebu yn glir ac yn hyderus gyda phlant. Clywsom enghreifftiau gwych o staff yn cefnogi, *"Ti ishe sychu trwyn – beth am sychu trwyn. Da iawn ti".* Wrth baratoi ar gyfer gweithgareddau mae staff yn esbonio ac yn dangos adnoddau, cyn annog plant i ddewis a mwynhau ystod o fyrddau fel darnau rhydd, toes, bwrdd crefft neu blociau ar y mat. Wrth symud o amgylch gyda'r plant, mae staff yn cyfathrebu gan ddefnyddio Cymraeg clir. Er enghraifft, "*sawl pitsa sydd fan hyn? Pa liw yw hwn? Oh diolch – da iawn*". Mae staff i gyd yn gefnogol ac yn cynnig amser, lle a rhyddid i blant i ddewis ble maent yn teimlo fwyaf gyfforddus.

Mae'r broses cynllunio yn cael sylw manwl gan bawb ac mae staff yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant, ac yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf wrth adolygu cynnydd yn gyson. Mae staff yn cefnogi plant i gerdded tuag at uned y tai bach ac wrth gyrraedd, yn annog y plant i fod yn annibynnol a'u canmol wrth iddynt gyflawni'r tasgau yn llwyddiannus. Maent yn sgwrsio gyda'r plant mewn ffordd sydd yn annog agweddau meddwl cadarnhaol tuag at ddysgu, megis dyfalbarhad a chwblhau. Mae staff yn mynychu cyrsiau yn gyson er mwyn parhau i gyflwyno syniadau newydd ac arloesol. O ganlyniad, mae staff yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd parhaus i ddatblygu eu syniadau a'u lleisiau. Maent hefyd yn

gwrando'n astud ar farn y plant, cynnig adborth a gofyn cwestiynau agored er mwyn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant.

| Yr Amgylchedd | Good |
|---|---|

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn darparu amgylchedd sydd yn lân, croesawgar, cynnes a diogel. Mae'r lleoliad yn cynnig lefel da iawn o ddiogelwch ac o dan glo ar bob adeg. Mae'r plant yn cael y rhyddid i symud yn annibynnol dan do, yn ogystal â'r ardal awyr agored sydd yn gaeedig o fewn ffens ddiogel. Mae drws o'r brif ystafell chwarae yn arwain yn uniongyrchol i'r ardal chwarae awyr agored sydd yn cynnig arfer lle mae plant yn rhydd i ddewis eu chwarae. Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth mesurau a pholisïau cynhwysfawr ac effeithiol iawn ac mae staff i gyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant. Maent yn cadw asesiadau risg manwl a phwrpasol yn ogystal ac asesiadau perygl tân lle mae ymarfer, gweithdrefnau ac adnoddau'r gwasanaeth yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Er enghraifft, gwelsom dystiolaeth o ystod o dystysgrifau diogelwch a phrofion. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn drefnus ac yn cadw ffeil penodol ar gyfer trefniadau cludiant. Mae'r cofnodion yn gywir ac yn ystyried yr holl risgiau yn ogystal ag arfer rhagorol. Maent yn sicrhau bod cymarebau staff i blant yn gywir a bod y staff yn goruchwylio plant yn dda iawn. Er enghraifft, gwelsom y llyfr ymwelwyr, cofrestr y plant a chofnod arwyddo y staff. Mae trefn clir yn cael ei gweithredu sydd yn sicrhau diogelwch y plant. Mae plant yn gadael y brif ystafell chwarae i ddefnyddio tai bach cyfagos a gwelsom trefniadau effeithiol yn eu lle sydd yn diogelu y plant wrth iddynt symud o un ardal i'r llall.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y safle mewnol a'r ardal allanol yn ddiogel, yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn cynnig amgylchedd gyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r brif ystafell dan do a'r ardal yn yr awyr agored yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth i'r adnoddau a'r ddarpariaeth fod ar gael ac o fewn cyrraedd bob plentyn. Maent yn darparu adnoddau o safon uchel, er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, unedau llawn adnoddau fel magnetau, trac a mat ar gyfer ceir, cornel llawn seddau meddal a chlustogau lle mae modd gwario amser a'r tabledi neu edrych ar lyfrau. Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth trefniadau effeithiol ar gyfer storio darpariaeth ac adnoddau yn yr awyr agored. Mae llwybrau yn arwain plant i ardaloedd lle mae gwair a choed er mwyn medru profi arwynebau a graddiannau gwahanol.

Gwelsom adnoddau allanol o safon fel blociau adeiladu, baneri chwifio, chwyddwydrau, bocsys plannu a chegin fwd. Dywedodd staff am gyfleoedd eraill i fwynhau profiadau corfforo. Mae ganddynt mynediad wythnosol i neuadd hamdden y ganolfan, lle mae modd cynnig amgylchedd wahanol i blant. Er enghraifft, gweithgareddau fel gosod adnoddau mewn cylchedau a chael y lle a'r diogelwch i blant gael datblygu sgiliau pellach. Mae'r amgylchedd dan do hefyd yn cynnig ardaloedd sydd yn cynnig lle i storio gwaith papur yn gyfrinachol. Mae cegin y ganolfan, sydd yn benodol i'r lleoliad yn ystod oriau gwasanaeth yn le glân i baratoi byrbrydau a diodydd. Mae plant sydd yn aros am y clwb cinio yn dod a bocsys bwyd eu hunain. Mae'r ystafell storio gwaith papur y gwasanaeth hefyd yn storio'r holl ddarpariaeth ac adnoddau sydd yn cael eu symud ar ddiwedd bob sesiwn bore mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Wrth gadw trefn clir ar ystafell storio, maent yn cylchdroi eu hadnoddau yn ddyddiol a gwelsom ystod o adnoddau o safon yn cael eu gosod allan. Er enghraifft, adnoddau pren, rhannau rhydd, darnau bach o bren lliwgar er mwyn sortio. Mae'r ystafell dan do yn cael eu gosod allan bob bore a hynny i'r safon uchaf. Mae'r fynedfa o'r ganolfan yn cynnwys ardal lle mae modd cynnig ardal breifat i siarad a rhieni neu ymwelwyr yn ogystal a'r ardal allanol lle mae rheini yn casglu eu plant o'r giât gefn sydd wrth fynedfa'r ardd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Excellent

Mae’r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn brofiadol ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol. Maent yn rhannu hwn gyda staff a rhieni drwy ddarparu polisïau clir a datganiad o ddiben sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth. Mae polisïau yn cael eu hadolygu yn flynyddol ac mae ganddynt ffeil cynhwysfawr o bolisïau cyfredol a phriodol. Yn ogystal a hyn, mae ffeil yn cynnwys polisïau sydd yn cael eu hystyried ar gyfer adolygiadau pellach. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn mynd y tu hwnt i’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn wybodus iawn am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn drefnus o rhan adolygu polisïau, tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion. Er enghraifft, gwelsom cofnodion cyfarfodydd cynllunio wythnosol, lle maent yn trafod diddordebau’r plant, gweithgareddau sydd yn bwrpasol a pharatoadau ar gyfer sicrhau bod adnoddau ar gyfer gweithgareddau yn eu lle. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod hyfforddiant staff yn rhan o broses barhaol ar gyfer eu datblygiad pellach. Maent yn sicrhau bod profiadau hyfforddiant pawb yn cael eu rhannu

gyda’r tîm yn ogystal a chylchdroi hyfforddiant fel bod bob aelod staff yn mynychu cyrsiau a rhannu gwybodaeth fel rhan o gyfarfodydd staff. Mae hon yn broses rhagorol a pharhaus. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth yn cynnig esiamplau clir, amlwg ac effeithiol iawn o arfer gorau cyfredol sydd yn berthnasol i'r plant yn eu gofal. Mae ganddynt ddealltwriaeth ardderchog o’u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae’r gwasanaeth yn hybu’r diwylliant Cymreig, gyda thîm o staff sydd yn deall pwysigrwydd hybu’r iaith. Mae staff yn gefnogol a chlywyd esiamplau clir o gefnogi a modeli iaith cywir.

Mae’r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth wedi cwrdd a thargedau’r adroddiad ansawdd gofal diwethaf. Maent yn casglu adborth yn flynyddol oddi wrth plant, rhieni a swyddogion allanol ac yn buddsoddi yn y gwasanaeth drwy gosod targedau newydd a nodau clir. Maent yn gweithio fel tîm, yn rhannu, trafod ar y cyd ac yn ystyried bob agwedd ar gyfer gwelliant am y dyfodol. Mae’r weledigaeth ar gyfer datblygu yn barhaol yn rhagorol a phwrpasol. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth hefyd yn rhan o gynllun trochi iaith a gwelsom targedau cyfredol ar fwrdd gwybodaeth a ffeil gynhwysfawr o gyflawniadau. Maent wedi ennill nifer o wobrwyon sydd yn cydnabod safonau uchel iawn, ac yn parhau i weithio i godi’r safon yn uwch.

Mae’r bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth a’r holl staff wedi gweithio gyda’i gilydd ers blynyddoedd ac yn cydweithio’n agos ac effeithiol iawn. Maent yn adnabod cryfderau eu hunain sydd yn arwain at safonau uchel ac ethos broffesiynol. Mae eu profiadau ar y cyd yn glir a’r parch tuag at ei gilydd yn amlwg. Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth gysylltiadau cryf ag amrywiaeth o ddefnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Maent yn rhan annatod o’r ganolfan lle lleolir y gwasanaeth, yn ogystal a chael partneriaethau cryf a swyddogion y sir. Maent yn cynnal gwasanaeth cludiant diogel ac effeithiol drwy ddefnyddio gwasanaeth y ganolfan. Mae rhieni yn ganmoladwy iawn o’r gwasanaeth ac yn dweud eu bod yn hapus iawn a’r lleoliad, yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth barhaol ac yn canmol staff hawddgar sydd yn nabod y plant yn dda iawn. Mae rhieni yn gwerthfawrogi cyfathrebu clir y gwasanaeth drwy App effeithiol. Dywedodd staff eu bod wrth eu bodd yn gweithio yn y lleoliad ac yn mwynhau cwmni eu gilydd. Dywedodd staff eu bod yn gwerthfawrogi arddull arwain cefnogol a thîm o staff sydd yn hyblyg. Er enghraifft, pan yn trefnu cyfarfodydd cynllunio, maent yn sicrhau bod yr holl staff yn gallu mynychu.

## Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

Nid oes unrhyw argymhellion.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 25/04/2023